# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 5

RHOI TWLL MEWN RHAN BERSONOL O'R CORFF

*Gorfodi*

### 107 Eiddo a gyfeddir: digolledu

(1) Caiff person ("P") a chanddo fuddiant mewn unrhyw beth y mae swyddog awdurdodedig neu gwnstabl ("swyddog gorfodi") wedi cymryd meddiant ohono o dan adran 103(1)(c) ("eiddo a gyfeddir") wneud cais drwy gŵyn i unrhyw lys ynadon i gael ei ddigolledu.

(2) Mae is-adran (3) yn gymwys os yw'r llys, ar gais o dan yr adran hon, wedi ei fodloni—

(a) bod P wedi dioddef colled neu ddifrod oherwydd bod y swyddog gorfodi wedi cymryd meddiant o'r eiddo a gyfeddir, neu ei gadw, o dan amgylchiadau pan nad oedd yn angenrheidiol gwneud hynny at ddiben canfod a oedd trosedd o dan adran 95 wedi ei chyflawni, a

(b) na ellir priodoli'r golled neu'r difrod i esgeulustod neu ddiffyg P.

(3) Caiff y llys orchymyn i P gael ei ddigolledu—

(a) pan fo'r swyddog gorfodi yn swyddog awdurdodedig i awdurdod lleol, gan yr awdurdod lleol, neu

(b) pan fo'r swyddog gorfodi yn gwnstabl, gan brif gwnstabl yr heddlu y mae'r cwnstabl yn aelod ohono.

(4) Mae'r cyfeiriad yn is-adran (3) at "heddlu" yn gyfeiriad at heddlu ar gyfer ardal sy'n ardal heddlu at ddibenion adran 1 o Ddeddf yr Heddlu 1996 (p.16).